Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Ethnigrwydd Gweithwyr Comisiwn y Senedd

17 Awst 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Awst, pan wnaethoch ofyn,

*Hoffwn wneud cais Rhyddid Gwybodaeth sy'n manylu ar amrywiaeth ethnig y gweithwyr sy'n gweithio yn Senedd Cymru. Y nod yw deall pa mor dda y mae lleiafrifoedd yn cael eu cynrychioli yn Senedd Cymru yng Nghaerdydd.*

*Hoffwn gael gwybodaeth fanwl yn seiliedig ar y meini prawf a ganlyn:*

1. *Eithrio unrhyw wybodaeth am aelodau neu staff aelodau;*
2. *Dadansoddiad llawn o nifer y gweithwyr yn Senedd Cymru, yng Nghaerdydd, wedi'u grwpio yn ôl eu hethnigrwydd.*
3. *A fyddech cystal â chynnwys dadansoddiad yn ôl gradd cyflogaeth ac ethnigrwydd pob gradd.*

Gallaf gadarnhau bod gan Gomisiwn y Senedd y wybodaeth hon a'i bod eisoes ar gael i'r cyhoedd ar ein **gwefan**. Gweler y dogfennau ategol a gyhoeddwyd o dan Adroddiad Blynyddol 2019-20: Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Gan fod yr wybodaeth y gofynnir amdani eisoes wedi'i chyhoeddi ar wefan y Senedd, mae'n ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF